# Y GOGARTH

**Croeso i'r daith sain o gwmpas Cylchdro'r Gogarth. Dyma'r lôn breifat sy'n mynd yr holl ffordd o gwmpas y penrhyn calchfaen enfawr sydd ychydig i'r gogledd o dref Llandudno, sef y Gogarth.**

Mae Cylchdro'r Gogarth yn dyddio'n ôl i 1858 pan adeiladodd Reginald Cust lwybr o gwmpas y Gogarth wrth i dwristiaeth ddechrau datblygu. Roedd Cust yn ymddiriedolwr i deulu Mostyn, tirfeddianwyr mawr yng ngogledd Cymru ers canrifoedd – ond doedd y llwybr yn fawr o beth.

Yn wir, ymwelodd y Prif Weinidog ar y pryd, William Gladstone â'r Gogarth unwaith a rhoi cynnig ar gerdded y llwybr. Ond roedd ganddo gymaint o ofn y dibynnau serth, nes y bu'n rhaid rhoi gorchudd dros ei lygaid a'i arwain o gwmpas gan dywysydd lleol!

Cafodd ei ailadeiladu ryw ugain mlynedd yn ddiweddarach yn 1878 ar anterth gogoniant Fictoraidd Llandudno a bri'r diwydiant twristaidd. Y tro hwn, cafodd ei gynllunio fel ffordd ar gyfer cerbydau a'i ailenwi'n Gylchdro'r Gogarth.

Mae taith sain Cylchdro'r Gogarth tua phum milltir o hyd, ac mae modd defnyddio cadeiriau olwynion a choetshys babis arno.

### Taith Sain

Mae'r canllaw hwn yn mynd gyda'r daith sain y gallwch ei lawrlwytho o'r pwyntiau gwybodaeth yng nghaffi *Rest and Be Thankful*, y Ganolfan Ymwelwyr, Tollborth Traeth y Gogledd ac o:

**www.greenlinks.org**



### Taith Sain

Sally Pidcock, Warden Parc Gwledig y Gogarth sy'n archwilio'r amodau sydd eu hangen ar y planhigion i ffynnu.




*Caldrist Ruddgoch*

## Planhigion

Mae'r Gogarth yn Ardal Gadwraeth Arbennig o arwyddocâd rhyngwladol. Un rheswm dros hyn yw bod yma'r fath ystod o blanhigion, gan gynnwys dros 400 rhywogaeth o flodau gwyllt, sydd ond yn gallu bodoli yma am fod cynifer o gynefinoedd gwahanol ar y Gogarth.

Mae planhigion ag enwau fel y *Caldrist Ruddgoch* a'r *Melynydd Brych* yn tyfu ymhlith gweiriau'r Gogarth ac ar y clogwyni garw uwch y môr.

## LLONGDDRYLLIO – Y JANE TUDOR



Bu llawer o longddrylliadau o gwmpas y Gogarth, ond digwyddodd un o'r rhai mwy 'ffodus' yn 1847.

Roedd y *Jane Tudor* ar ei ffordd o America i Lerpwl, yn llawn o gorn a blawd. Yng nghefn gaeaf, aeth yn sownd ar y creigiau peryglus ar ochr orllewinol y Gogarth, a elwir yn 'Gerrig Uthan'.

I'w hachub eu hunain, torrodd y criw y mast blaen a'i ddefnyddio fel pont i'r tir mawr. Arhosodd y llong yn sownd ar y creigiau tan i fasnachwr lleol ei phrynu a'i halio'n ôl i Gonwy.

Trwsiwyd y *Jane Tudor* a bu'n gwasanaethu fel un o'r prif longau oedd yn cludo coed ar gyfer adeiladu Llandudno yn Oes Fictoria.

### Taith Sain


Dyma Debbie Wareham, arbenigwraig ar hanes morwrol, i ddweud am longddrylliad enwog arall – yr Hornby.

## Daeareg

Mae'n anodd dychmygu tir Cymru heddiw yn hemisffer y de, ond dyna oedd yn wir 330 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Bryd hynny, roedd gan 'Gymru' hinsawdd trofannol cynnes ac roedd y moroedd o'n cwmpas yn debyg i'r Bahamas neu'r Barriff Mawr heddiw – yn fyw gan fywyd trofannol.

Byddai pysgod cyntefig, sbyngau, cwrelau a chregyn wedi byw yn y dŵr cynnes, bas. Pan fydden nhw farw, byddai'u sgerbydau'n suddo i waelod y môr.

Dros filiynau o flynyddoedd, symudodd y tir tua'r gogledd i'r fan ble mae heddiw, a gellir gweld olion y creaduriaid hynny ar ffurf ffosiliau yn yr haenau calchfaen sy'n creu'r Gogarth.



*Melynydd Brych*



*Ffosil Amonit*

### Taith Sain

Dyma Raymond Roberts a Kate Surry o Gyfoeth Naturiol Cymru i esbonio hanes daearegol y Gogarth, a'i ddylanwad ar y presennol.

# Yr Ogofeydd

Mae creigiau calchfaen enfawr y Gogarth yn llawn o ogofeydd diddorol.

Mae ôl dyn yn yr ardal hon, ac yn yr ogofeydd hyn, yn dyddio'n ôl o leiaf 13,000 o flynyddoedd. Rydym yn gwybod hyn am fod gên ceffyl wedi'i addurno'n gelfydd wedi'u ddaragnfod mewn ogof ar ochr ddeheuol y Gogarth. Mae'r ên yn cael ei harddangos yn Amgueddfa Llandudno ar hyn o bryd.

Ar ôl cloddio diweddar, darganfuwyd ysgerbydau dynol o'r Oes Efydd – rhwng tair a phedair mil o flynyddoedd yn ôl. Fe welwch chi lawer o'r pethau oedd gyda nhw, fel modrwyau aur, bwyelli copr a gwaith haearn arall, yng nghanolfan ymwelwyr Cloddfeydd y Gogarth.



Gên gerfiedig y ceffyl

© Amgueddfa Brydeinig

**Taith Sain**

Mae Tom Parry, hanesydd lleol, yn gwybod sawl chwedl am y Gogarth a'r ogofeydd.

Yn Oes Fictoria, cododd dynes o'r enw Mary Jones yr Ogof ei 14 plentyn mewn ogof ger Gogarth, Ond ynghanol yr 1800au, symudwyd y teulu a dinistrio'u hogof er mwyn adeiladu Cylchdro'r Gogarth.

**Taith Sain**

Dyma Chris Woodall, Dirprwy Warden y Parc Gwledig, i esbonio sut y mae'r elfennau'n newid tirwedd y Gogarth drwy'r amser.

# Bywyd y Môr

O dan y tonnau o gwmpas y Gogarth mae cynefin gwych i famaliaid morwrol a physgod.

Fe welwch chi adar y môr yn ymgasglu yn eu cannoedd uwchlaw heigiau o bysgod o dan y tonnau, gan blymio i'w dal ar gyfer eu plant yn ôl ar y creigiau.

Os byddwch chi'n ffodus, fe welwch chi forloi'n pysgota neu'n chwarae ger y lan ac weithiau'n torheulo ar un o draethau diarffordd y Gogarth.

Mae dolffiniaid a llamhidyddion yn byw yma hefyd. Efallai y gwelwch chi ddolffiniaid yn neidio allan o'r môr mewn grwpiau wrth iddyn nhw ddal pysgod.

Ac ar ddiwrnod llonydd, efallai y gwelwch chi forfil neu heulforgi ychydig ymhellach allan yn y môr mewn dŵr dyfnach.





*Edrychwch am eifr Cashmir gwyllt*

# Geifr Cashmir

Os dringwch chi'n uwch i fyny llethrau'r Gogarth, fyddwch chi ddim yn hir cyn gweld un o'r geifr Cashmir gwyllt – mae'n bosib y gwelwch chi un o Gylchdro'r Gogarth hyd yn oed.

Mae rhyw 130 o eifr yma a daethpwyd â nhw i Brydain yn wreiddiol ar gyfer eu gwlân, a ddefnyddir i wneud siolau.

Mae gan y bwch gafr gnu hir, blewog, ymylon hir cyrliog a chyrn hir ar dro. Gallwch chi adnabod y fenyw am fod ganddi gyrn bach iawn a chnu byr.

Mor ddedwydd yw'r geifr ar y Gogarth, nes y bu'n rhaid cyflwyno mesurau atal cenhedlu i reoli'r boblogaeth – roedd dros 200 yn y praidd ar un adeg. Yn y gaeaf roedden nhw'n bwyta mwy nag oedd ar gael iddyn nhw ac yn crwydro i lawr i dref Llandudno, oedd wrth fodd y twristiaid, ond yn boendod i'r garddwyr lleol!

Geifr Cashmir yw masgotiaid y Gatrawd Grenhinol Gymreig.

**Y RHYFEL BYD CYNTAF**

Yn ôl yr hanes, ceisiodd tri carcharor Almaenaidd ar ffo gwrdd â llong danfor oddi ar arfordir gogleddol y Gogarth.

Ond daeth y llong i'r wyneb ar ochr anghywir y penrhyn. Bob nos wedyn, wrth i'r tywydd waethygu, edrychodd y milwyr am y llong danfor ar un ochr y penrhyn, wrth iddi ddod i'r wyneb yr ochr arall!

Yn y pen draw, gwaethygodd y tywydd i'r fath raddau nes gorfodi'r milwyr i mewn i Landudno i chwilio am gysgod. Diflannodd y llong danfor o dan y tonnau, a daliwyd y carcharorion mewn fawr o dro.

# Ysgol Danio Arfordirol

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, symudodd Ysgol Danio Arfordirol o Shoeburyness yn Essex i ddiogelwch y Gogarth. Yma, hyfforddwyd cannoedd o filwyr sut i amddiffyn porthladdoedd a threfi arfordirol y DU.

Prin yw'r olion heblaw am ambell slab o goncrit, sy'n gartref i gyfoeth o fywyd gwyllt bellach.



Llwytho sieliau yn Ysgol Danio Arfordirol, y Gogarth

*Llun trwy garedigrwydd John Crewdson*

**Taith Sain**

Dyma John Crewdson (ynghanol y llun) i ddweud am ei gyfnod fel hyfforddwr yn yr ysgol – lle syndod o dawel yn ystod y rhyfel!

# Bywyd Adar

Yma ar y Gogarth fe welwch rai o adar mwyaf diddorol Prydain. Mae'r Gogarth yn gartref i adar môr, adar gweundiroedd sy'n nythu yma, ac adar sy'n ymfudo.

Yn y clip sain, fe glywch am un o adar prinnaf Prydain sy'n nythu ar glogwyni, ac sy'n byw yma – y frân goesgoch. Mae'n aelod o deulu'r brain a gellir ei adnabod gerfydd ei draed a'i big coch, a'r plu du. Fe glywch ei gân nodweddiadol swnllyd, sy'n swnio fel si-w, a gobeithio y gwelwch ei gampau hedfan syfrdanol. Mae angen amodau penodol iawn ar frain coesgoch i ffynnu, ac mae gweirdiroedd y Gogarth yn dir hela perffaith ar eu cyfer.

Weithiau bydd pobl yn camgymryd y gwylogod ar greigiau'r Gogarth am bengwiniaid. Maen nhw'n lletchwith wrth hedfan – ond yn llawer hapusach yn nofio o dan ddŵr i hela am bysgod. Efallai y gwelwch nhw'n sblasio yn y dŵr oddi ar yr arfordir.



### Taith Sain

Dyma Tom Gravett, gwyliwr adar brwd, yn esbonio'r amodau arbennig sy'n galluogi adar i ffynnu yma ar y Gogarth.

# Tyrbinau Gwynt

Wrth i chi edrych allan oddi ar arfordir gogleddol y Gogarth fe welwch bron i 200 o dyrbinau gwynt.

Mae'r strwythurau enfawr gwyn hyn yn cynhyrchu trydan ar gyfer Grid Cenedlaethol y DU.

### Taith Sain

Dyma Vince Read, Rheolwr Prosiect gyda RWE Innogy UK, i esbonio adeiladu'r tyrbinau, sut y maen nhw'n cynhyrchu egni llygredd isel a sut y cânt eu cynnal yn llwyr gan beiriannwyr lleol.



Cymerodd flynyddoedd o gynllunio i adeiladu'r fferm wynt forol hon, Gwynt y Môr, ac aeth y cwmni sy'n gyfrifol, RWE Innogy UK ati i gynllunio'n fanwl.

Bu'n rhaid trefnu'r adeiladu, a'r cynnal a chadw parhaus, o gwmpas patrymau paru ac ymfudo'r bywyd morwrol lleol.

## DRINGO »

Daeth y Gogarth yn fan chwarae i gannoedd o ddringwyr bob blwyddyn, sy'n dod i herio creigiau'r môr.

Yn draddodiadol, defnyddiodd dringwyr angorau parhaol sy'n sownd wrth wyneb y graig, gan ddiogelu'u hunain drwy gyfrwng rhaffau a harneisiau sy'n sownd iddyn nhw.

Ond daeth math o ddringo a elwir yn 'glogfaenio' yn boblogaidd – ble nad oes yr un rhaff na harnais yn cael ei defnyddio. Yn hytrach mae'r dringwyr yn gosod matiau trwchus i lawr i'w gwarchod os ydyn nhw'n disgyn.

Cadwch lygad am ddringwyr a chlogfaenwyr yn ymarfer ar hyd Cylchdro'r Gogarth.

### Taith Sain

Dyma Elfyn Jones o Gyngor Mynydda Prydain, i siarad am yr ogofeydd a'r clogwyni calchfaen sy'n boblogaidd gan ddringwyr a chlogfaenwyr.

# Y Ffordd yn ôl i Landudno

Pan gyrhaeddwch chi Dollborth Penmorfa ar y daith sain, bydd gennych ddau ddewis – bwrw ymlaen ar hyd y briffordd i Landudno, sy'n wastad ac wedi'i balmantio, neu ddringo darn bach serth ac i fyny sawl gris, hyd nes i'r llwybr droi'n wastad, gan arwain at Erddi Haulfre ar hyd llwybr a elwir yn Rhodfa'r Cleifion. Mae esboniad mwy manwl o hwn yn y daith sain.

# Dysgwch ragor

Mae llawer mwy i'w ddysgu am y Gogarth.

Mae'n hawdd cyrraedd y Ganolfan Ymwelwyr ar Benygwylwyr ar droed, mewn car cebl neu drwy gyfrwng tram Fictoraidd enwog y Gogoarth, sydd ill dau'n cychwyn o Landudno.

Fe gewch chi ragor o wybodaeth yn Amgueddfa Llandudno ar Ffordd Gloddaeth yn y dref. Mae'r amgueddfa'n adrodd stori Llandudno a'r Gogarth o ddiwedd yr Oes Ia ddiwethaf hyd at yr Ail Ryfel Byd.

Mae yna Gymdeithas Archwilio'r Gogarth sy'n cynnal teithiau cerdded rheolaidd drwy'r haf. Ewch i **www.goes.org.uk** am amserlen.


Yn ogystal mae tudalennau'r Gogarth ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu gwybodaeth gyfredol am reolaeth a gweithgareddau'r Gogarth.

**www.conwy.gov.uk/greatorme**

### Taith Sain

Ymunwch ag Emily La Trobe-Bateman, archeolegydd gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, i ddatgelu trysorau'r Gogarth.

**Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich ymweliad a dewch i'n gweld eto'n fuan.**




Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council · CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL · RWE The energy to lead · CYSYLLTIADAU GWYRDD GREEN LINKS

Mae Cysylltiadau Gwyrdd yn brosiect twristiaeth ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych ac yn cael ei ariannu gan RWE Innogy UK a phartneriaid trwy Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr.

Darluniau: Antony Griffiths a Michael Roberts · Dylunio: Pippa Sanderson, Monty Funk Productions